**Holiadur ar gyfer Swyddogion Oed-gyfeillgar fel rhan o'r gwerthusiad ar ganlyniadau'r Grant Cymunedau Oed-gyfeillgar 2022 – 2025**

**1) Ym mha adran o'r cyngor ydych chi'n gweithio? A yw gweithio yn yr adran honno'n eich helpu i gyflawni eich dyletswyddau fel swyddog oed-gyfeillgar?**

**2) A oes gennych chi ddisgrifiad swydd? A yw eich disgrifiad o'r swydd yn sôn am weithio gyda thimau eraill sy'n cefnogi pobl hŷn?**

**3) Ers pryd ydych chi wedi bod yn y swydd hon?**

**4) Faint o drigolion hŷn lleol wnaethoch chi ymgysylltu â nhw yn bersonol ac yn rhithwir trwy gyfarfodydd, ymgyngoriadau, taflenni, cylchlythyrau ac ati mewn perthynas â'r cyllid Grant? Rhowch ffigurau ar wahân ar gyfer ymgysyllitad personol ac ymgysylltiad rhithwir i gwmpasu'r cyfnod o ddeuddeg mis – Ebrill 2024 – Mawrth 2025**

**5) Sut ydych chi'n casglu adborth gan bobl hŷn? Sut ydych chi'n gweithredu ar yr adborth hwn?**

**6) A ydych chi'n gweithio gyda phobl hŷn wrth ddewis a chynllunio gweithgareddau a/neu grwpiau ar eu cyfer? Sut ydych chi'n gwneud hyn? A yw hyn yn wahanol mewn ardaloedd gwledig/ardaloedd trefol?**

**7) Sut mae'r cyllid wedi eich helpu i weithio gyda phartneriaid yn eich sefydliad? Y tu allan i'ch sefydliad?**

**8) Sut mae diffiniad eich cyngor o amrywiaeth yn dylanwadu ar y ffordd yr ydych chi'n gweithio gyda phobl hŷn? A yw rhai grwpiau o bobl yn elwa mwy nag eraill? Er enghraifft, grwpiau oedran penodol?**

**9) Os ydych chi'n aelod o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd, sut mae hyn wedi eich helpu i greu cymunedau oed-gyfeillgar neu ymgorffori arferion oed-gyfeillgar? Os nad ydych chi'n aelod, a yw'r broses ymgeisio wedi bod yn ddefnyddiol?**

**10) Pa ganlyniadau oeddech chi'n gobeithio eu cyflawni ar ddechrau'r ddarpariaeth ariannu yn 2022? Beth ydych chi wedi ei gyflawni hyd yma?**

**11) O ganlyniad i'r cyllid sy'n ariannu eich rôl, a ydych chi wedi gallu sbarduno / cyrraedd at gyllid ar gyfer pobl hŷn o ffrydiau cyllido eraill?**

**12) Beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd wedi bod yn anodd i chi?**

**13) Sut mae'r cyllid am un flwyddyn yn effeithio ar eich gallu i gyflawni eich rôl yn llwyddiannus?**

**14) Yn eich barn chi, sut mae eich swydd wedi gwella lles pobl hŷn dros y tair blynedd diwethaf? (Gallai hyn gynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda phobl hŷn, creu partneriaethau neu ddrafftio polisi sy'n adlewyrchu anghenion pobl hŷn yn eich ardal.)**

**15) Pa weithgaredd/polisi y mae cyllid y grant Cymunedau Oed-gyfeillgar yn eich helpu i'w wella na fyddech chi'n gallu ei wneud hebddo? A ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig bod y cyllid hwn yn cael ei glustnodi?**